## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 28 TACHWEDD 2023 AM 5.30pm**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: E.M. Aldworth, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Gordon, T. Heron, B. Miles (Is-Gadeirydd), T. Parry (Cadeirydd), J. Roberts, J. Simmonds, S. Skivens, J Winslade a K. Woodland.

Aelodau'r Cabinet: Y Cynghorwyr C. Andrews (Addysg a Chymunedau), E. Forehead (Gofal Cymdeithasol), a J. Pritchard (Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd).

Swyddogion: D. Street (Dirprwy Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), M. Jacques (Swyddog Craffu) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mrs P. Ireland.

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 1. | Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Bishop and A. Leonard a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mrs K. Cole (NEU) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili). | Dd/B |
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Fe wnaeth y Cynghorydd D. Cushing ddatgan buddiant personol ar eitem 9 ar yr agenda. | Dd/B |
| 3. | Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023. | PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023 fel cofnod cywir. | Unfrydol |
| 4. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Dd/B |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. | Cynigiodd yr aelodau ohirio'r cais gan WAVE Trust i gyfarfod yn y dyfodol pan fyddai gwybodaeth bellach ar gael, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy alw cofrestr.<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr eitemau agenda ychwanegol arfaethedig, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhau ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i diwygiwyd, ar wefan y Cyngor. | Unfrydol<br><br>Unfrydol |
| 6. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda ei alw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Dd/B |
| 7. | Rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac ymgynghoriad – Adroddiad Ymgynghori: Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf | Yn dilyn ystyried yr adroddiad ymgynghori, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhau ar lafar, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:<br><br>1. Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet, trwy bleidlais, i symud ymlaen i Rybudd Statudol mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. | 14 o blaid<br>0 yn erbyn<br>1 ymatal |
| 8. | Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 – Adroddiad Ymgynghori: Cynnig ar gyfer cau Ysgol Fabanod Cwm Glas. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad ymgynghori, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Drwy Microsoft Forms a chadarnhau ar lafar, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:<br><br>1. Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet, trwy bleidlais, i symud ymlaen i Rybudd Statudol | 15 o blaid<br>0 yn erbyn<br>1 ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn Gorffennaf 2024 | |
| 9. | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar gyfer 2022/23 | Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad. | Dim angen pleidlais. |

**Dosbarthu:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Iau 7 Rhagfyr 2023.